

## ATEBION ARDDODIAID

### Tasg 1

Rhowch ffurf gywir yr arddodiad yn y bylchau.

1. Clywais i **amdanyn** nhw'n ennill y gystadleuaeth.
2. Gadawodd hi'r tŷ **hebddo** i.
3. Roedd can punt **ganddi** hi yn ei bag.
4. Beth rydych chi'n feddwl **ohono** fe?
5. Ymosododd y dyn **arni** hi.
6. Ewch i'r neuadd **atyn** nhw.
7. Roedd hi'n hen bryd **iddo** fe ddechrau gwrando ar ei fam.
8. Roeddwn i'n teimlo'n flin **drostyn** nhw.
9. Bydd y llyfrau ar y ddesg a bydd y bagiau **arni** hi hefyd.
10. Dywedodd hi'r hanes **wrtho** i ddoe.
11. Gwelais i ddeg **ohonyn** nhw'n crwydro o gwmpas y parc.

### Tasg 2


Treiglwch lle bo angen yn y brawddegau isod.


1. Ysgrifennodd hi baragraff arall ar **dd**iwedd y llythyr.
2. Pris y tocynnau fydd tua **ph**um punt.
3. Arhosodd hi yn y gwersyll am **f**is, rwy'n meddwl.
4. Siaradodd hi dros **g**yfreithiwr y teulu.
5. Bydd e'n gadael ei swydd cyn **d**iwedd y flwyddyn.
6. Byddwn ni'n ymweld â **Ch**astell Henllys wythnos nesa.
7. Mae hi'n dod o **G**aerdydd.
8. Roedd ganddi hi **b**igyn clust.
9. Ydyn nhw'n mynd i **f**eicio bob wythnos?
10. Rhedodd y chwaraewyr yn syth i **g**anol y cae.
11. Bydd hi'n mynd â **ph**lant yr ysgol i Lundain yn yr haf.

### Tasg 3

Cywirwch y brawddegau hyn. Mae un gwall ym mhob brawddeg.

1. Mae hi wedi bod yn dysgu Llydaweg **er** mis Ionawr.
2. Roedd hi wedi dweud y stori **wrthot** ti.
3. Ysgrifennais i lythyr byr **ati** hi.
4. Dywedais i'r hanes **wrth** fy mrawd.
5. Mae brech yr ieir **arno** fo.
6. Wyt ti'n gwybod **o ble mae e'n dod** ?
7. Mae'r llyfrau **yng nghanolfan** adnoddau'r ysgol.
8. Roedd hi'n byw **yng Ngh**aernarfon ers blynyddoedd.
9. Roedd digon o **f**wyd a diod yn y parti.
10. Pan welwch chi'ch chwaer, cofiwch fi **ati** hi.
11. Roeddwn i wedi ymweld **â'r** cleifion yn yr ysbyty.
12. Peidiwch â chwerthin **am** ben y plant drwg.





# ATEBION ATALNODI

**Tasg 1**

Rhowch atalnod llawn, gofynnod neu ebychnod ar ddiwedd pob llinell.

1. Mae’r tywydd yn ardderchog heddiw**.**
2. Fydd hi’n mynd i’r ysbyty ar ôl cinio**?**
3. Mae hyn yn hollol dwp**!**
4. Byddwch yn dawel neu ewch allan ar unwaith**!**
5. Aethon ni ar ein gwyliau i’r Aifft**.**
6. Glywaist ti am y llosgfynydd yng Ngwlad yr Iâ**?**
7. Byddwch chi’n siwr o golli’r bws – brysiwch**!**
8. Pwy sy’n cael ei phen-blwydd ym mis Mai**?**
9. Bydd rhaid i fi archebu mwy o inc, rwy’n meddwl**.**
10. Os nad ydych chi’n siwr dylech chi edrych yn y geiriadur**.**

**Tasg 2**


Rhowch atalnod (coma), gofynnod a dyfynodau yn y lleoedd cywir yn y brawddegau isod.

1. ‘Doedd dim siw na miw yn y neuadd**,’** meddai hi.
2. ‘Pwy ddywedodd ei bod yn iawn i chi adael**?’** gofynnodd y pennaeth.
3. ‘Wyt ti wedi llenwi’r ffurflen eto?’ oedd cwestiwn cyntaf y cyfrifydd.
4. ‘Ble mae’r geiriadur**?’** gofynnodd yr athrawes.
5. ‘Mae e ar y silff lyfrau**,’** atebais i.
6. ‘Fe yw’r chwaraewr pêl-droed gorau yn y gynghrair**,’** meddai’r rheolwr.
7. ‘Rhaid i ti ddysgu’r gwaith yn gyntaf**,’** meddai Mam**,** ‘wedyn cei di chwarae gêm.’
8. Gwenodd yr hen ŵr yn wan a dweud**,** ‘diolch am fy helpu i groesi’r ffordd.’
9. ‘Bydd rhaid i ti gael dillad newydd os wyt ti am ddod i’r briodas**,’** meddai.
10. ‘Ti yw’r gorau**,’** sibrydodd ei mam.

**Tasg 3**

Cywirwch y brawddegau hyn.  Mae un gwall ym mhob brawddeg.

1. Dywedais y byddwn yn mynd ar fy ngwyliau cyn diwedd tymor yr **h**af.
2. Mae gwers **h**anes gen i bore fory.
3. Ym mis **H**ydref mae pen-blwydd fy mrawd.
4. ‘Bore da.  Sut mae pawb heddiw?**’** gofynnodd y nyrs.
5. Dw i ddim eisiau pryn**u’n** tocynnau trên yn rhy fuan.
6. Rwy**’**n gwybod pwy sy wedi ennill y loteri!
7. Byddaf yn prynu trowsus, crys, **tei a** siaced newydd.
8. Mae mynd allan ar dy ben dy hun yn y nos yn beryglus**.**
9. Dw i eisiau dringo’r **W**yddfa cyn mynd adre.
10. Byddaf yn mynd i nofio gyda’r teulu bob **n**os Iau.



## ATEBION BRAWDDEGAU A CHYMALAU

**Tasg 1**

Cysylltwch y brawddegau hyn.

1. Dyma'r castell **a gafodd** ei adeiladu gan Edward I.
2. Roedd rhaid i ni yrru i'r maes awyr **achos collon** ni'r trên.
3. Oeddet ti wedi clywed **mai fi** fydd llywydd nesaf y gymdeithas?
4. Es i i weld gwaith yr arlunydd **a e**nillodd brif wobr yr eisteddfod.
5. Mae hi'n credu'n bendant **bod y** meddyg yn gallu gwneud gwyrthiau.
6. Roedd hi'n hapus iawn **pan g**lywodd fy mod i'n dod adre dros y gwyliau.
7. Ydych chi wedi gweld y llyfr **a adewais** ar fwrdd y gegin?
8. Edrychwch ar y darlun **y m**ae llawer o bobl eisiau ei brynu.
9. Roedd hi'n hollol sicr **mai chi** fyddai'n gorffen y bwyd gyntaf.
10. Ble welsoch chi'r plant **yr** oedd eu mam-gu'n cysgu yn y tŷ?

**Tasg 2**

Ailysgrifennwch y brawddegau i bwysleisio'r geiriau sy wedi eu tanlinellu.

1. **Ar y bws b**ydd hi'n mynd i Lundain.
2. **Y ffrwythau fydd** ar y bwrdd.
3. **Gwella'r cleifion wnaeth** y meddygon.
4. **Ein tîm ni** enillodd y gêm.
5. **Y flwyddyn nesaf b**ydda i'n mynd ar fy ngwyliau i Seland Newydd.
6. **Tair nofel dd**arllenais i yr wythnos diwetha.

**Tasg 3**


Ailysgrifennwch y brawddegau yn y negyddol.

1. **Nid / Dim** brawd y dyn drws nesaf yw e.
2. **Nid / Dim d**yma'r dyn sy'n fy helpu i groesi'r ffordd bob bore.
3. Welaist ti'r nyrs **nad** oedd yn gas wrth Nain?
4. Rwy'n hoffi'r plant **na** siaradodd â fi yn y parc.
5. Efallai **na f**ydda i adre mewn pryd.

**Tasg 4**

Cywirwch y brawddegau hyn. Mae un gwall ym mhob brawddeg.

1. Rwy'n adnabod y wraig **sy** wedi cael swydd yn y coleg.
2. Mwynheais i'r ffilm er **ei** bod hi braidd yn hir.
3. Mae perygl **bod** diweithdra'n cynyddu yn y gaeaf.
4. Roedd hi wedi clywed **bod** Emyr yn sâl.
5. Roedd e'n dweud **bod y** bardd wedi ennill tair cadair.
6. Ble mae'r dyn a **d**alodd am y tacsi o Barcelona i Baris?
7. Ble mae'r dyn **oedd** wedi gadael y cleifion ar eu pennau eu hunain?
8. Dydy hi ddim yn cofio **mai** hi oedd yr olaf i adael yr adeilad.
9. Mae hi'n meddwl bod y band yn dda iawn.
10. Roeddwn i'n darllen y nofel oherwydd **ei** bod hi ar y cwrs.



# ATEBION CWESTIYNAU

**Tasg 1**

Rhowch 'yw', 'mae' neu 'sydd' yn y bylchau.

1. Faint o lyfrau **sydd** yn y cwpwrdd?
2. Ble **mae** Huw wedi cuddio'r arian?
3. Pwy **sydd** wedi bwyta'r siocledi i gyd?
4. Sut **mae'r** gwesteion yn teithio i'r gogledd?
5. Beth **mae** hi wedi ei ddysgu yn y wers heddiw?
6. Faint **yw** hwn?
7. Pa flodau **sy**'n tyfu yn yr ardd?
8. Pwy **yw** cariad newydd Dafydd?
9. Pryd **mae'r** bws yn gadael?
10. Pam **mae** mam y plant yn flin?

**Tasg 2**


Atebwch y cwestiynau isod

1. Ie.
2. Oes.
3. Ydy.
4. Do.
5. Do.
6. Ie.
7. Oes.
8. Ie.
9. Ydy.
10. Ydw.

**Tasg 3**

Cywirwch y brawddegau hyn. Mae un gwall ym mhob brawddeg.

1. Mae hi'n hwyr iawn heddiw. **Ydy**.
2. Beth **f**ydd hi'n ei brynu yn y siop?
3. **At bwy** rwyt ti'n mynd i anfon yr anrheg?
4. Sut **dd**yn yw'r plismon newydd?
5. Sawl **bachgen** sy'n mynd i Langrannog eleni?
6. Faint **g**ostiodd y tocynnau a'r pryd bwyd?
7. Pwy **yw / ydy** prif weithredwr yr Urdd nawr?
8. Pam **maen** nhw'n mynd allan cyn diwedd y gêm?
9. Oes ganddo fo gi newydd? **Nac oes**.
10. Pwy **sy'n** chwarae yn y gêm nesaf?





## ATEBION CYMHARU ANSODDEIRIAU

**Tasg 1**

Cwblhewch y grid. Wedyn, dewiswch un gair o bob llinell i wneud brawddeg sy'n dangos yr ystyr yn glir – 10 brawddeg i gyd.

| Cysefin | Cyfartal | Cymharol | Eithaf |
|---|---|---|---|
| da | **cystal** | **gwell** | **gorau** |
| **doeth** | **doethed** | doethach | **doethaf** |
| **gwael** | **cynddrwg** | **gwaeth** | gwaethaf |
| **drud** | druted | **drutach** | **drutaf** |
| **dwfn** | **dyfned** | **dyfnach** | dyfnaf |
| tlws | **tlysed** | **tlysach** | **tlysaf** |
| **trwm** | **trymed** | trymach | **trymaf** |
| gwyn | **gwynned** | **gwynnach** | **gwynnaf** |
| **hawdd** | hawsed | **hawsach** | **hawsaf** |
| caled | **caleted** | **caletach** | **caletaf** |

**Tasg 2**

Newidiwch ffurfiau cwmpasog yr ansoddeiriau yn ffurfiau cryno.

1. yn oerach
2. yn wlypach
3. y fyrraf
4. yr uchaf
5. y rhataf
6. yr hynaf
7. yn gyfoethocach
8. yn is
9. yn lletach na
10. yn anos na

**Tasg 3**

Cywirwch y brawddegau hyn. Mae un gwall ym mhob brawddeg.

1. Fe oedd un o'r plant **gorau** yn y dosbarth.
2. Roedd y bwyd yn neis ond dw i ddim wedi bwyta **cymaint** heddiw.
3. Mae'r ffrwythau ar y farchnad yn **rhatach** na'r ffrwythau yn y siop.
4. Mae hi'n llawer **mwy doeth** na fi.
5. Hi oedd y **ll**eiaf swnllyd yn y parti.
6. Dydy'r Wyddfa ddim yn uwch na**g** Alpau Ffrainc.
7. Rwyt ti **cynddrwg** â dy frawd!
8. **Nhw ydy'r** disgyblion gorau yn yr ysgol.
9. Roedd e'n fwy galluog na **ch**ariad fy chwaer.
10. Doedd hi ddim yn **fyrrach** na fi, a dweud y gwir.



## ATEBION ENWAU

### Tasg 1

Rhowch 'eg.' neu 'eb.' wrth ochr pob un o'r enwau hyn.

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cadair | **eb.** | llais | **eg.** | papur | **eg.** | drama | **eb.** | calon | **eb.** |
| myfyriwr | **eg.** | patrwm | **eg.** | teulu | **eg.** | cwrs | **eg.** | teledu | **eg.** |
| ysgrifenyddes | **eb.** | coleg | **eg.** | rhaff | **eb.** | dinas | **eb.** | coeden | **eb.** |

Nawr, rhowch y gair am 3 o flaen pob un. Treiglwch os oes angen.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **tair** cadair | **tri** llais | **tri ph**apur | **tair** drama | **tair** calon |
| **tri** myfyriwr | **tri ph**atrwm | **tri th**eulu | **tri ch**wrs | **tri th**eledu |
| **tair** ysgrifenyddes | **tri ch**oleg | **tair** rhaff | **tair** dinas | **tair** coeden |

### Tasg 2

Rhowch yr enwau isod yn y golofn gywir.
angladd, coes, gwasanaeth, gweithgaredd, plentyn, ystafell, cusan, afal, penderfyniad, pennill, llinell, rhestr, trafnidiaeth.

| Enw gwrywaidd | Enw benywaidd | Enw gwrywaidd/benywaidd |
|---|---|---|
| gwasanaeth, gweithgaredd, plentyn, afal, penderfyniad, pennill, | coes, ystafell, llinell, rhestr, trafnidiaeth | angladd, cusan, |

Nawr, rhowch 'y' neu 'yr' o flaen pob un.

y gwasanaeth, y plentyn, yr afal, y penderfyniad, y pennill, y **g**oes, yr ystafell, y llinell, y rhestr, y **d**rafnidiaeth, yr angladd, y cusan / y **g**usan.


### Tasg 3

- cyngor – cynghorau / cynghorion
- cais – ceisiau / ceisiadau
- pryd – prydau / prydiau (ar brydiau)
- nodyn – nodau / nodiadau
- gwaith – gweithiau / gweithfeydd
- llwyth – llwythi / llwythau

**Tasg 4**

Cywirwch

1. Roedd hi'n awyddus iawn i ddatrys y **d**irgelwch.
2. Derbyniodd yr adran adnoddau dynol ddeg o **geisiadau** am y swydd.
3. Mae'r rhestr **anrhegion** priodas ar y we.
4. Bydd y **m**erched yn cwyno os bydda i'n hwyr.
5. Faint o'r bechgyn fydd yn mynd i'r **c**oleg?
6. Teithiodd y llywydd i'r gynhadledd ar y **t**rên.
7. Doedd **rh**wydwaith y coleg ddim yn gweithio'n iawn.
8. Rwyt ti'n hwyr. Beth yw'r **rh**eswm?
9. Doedd ei henw hi ddim ar y **d**aflen.
10. Mae e wedi ennill y **g**ystadleuaeth.
11. **Tri ch**effyl fydd yn neidio yn y rownd derfynol.
12. Mae pymtheg **dyn** / **o ddynion** mewn tîm rygbi.



# ATEBION FFURFIAU CRYNO'R FERF

**Tasg 1**

Rhowch ffurf gywir y ferf a'r rhagenw sydd yn y golofn gyntaf yn yr ail golofn.
Wedyn, defnyddiwch y ffurf sydd yn yr ail golofn i wneud brawddegau ystyrlon.
Cofiwch dreiglo os oes angen.

| | |
|---|---|
| 1. Clywed + fi + ddim (gorffennol) | Chlywais i ddim |
| 2. Gweithio + fo (dyfodol) | **Gweithiff o** |
| 3. Dod + ni (gorffennol) | **Daethon ni** |
| 4. Syrthio + nhw + ddim (dyfodol) | **Syrthian nhw ddim** |
| 5. Gallu + ti (dyfodol) | **Gelli di** |
| 6. Prynu + nhw (dyfodol) | **Prynan nhw** |
| 7. Adeiladu + hi + ddim (gorffennol) | **Adeiladodd hi ddim** |
| 8. Cael + fi (gorffennol) | **Ces i / Cefais i** |
| 9. Casglu + chi (gorffennol) | **Casgloch chi** |
| 10. Ystyried + ti + ddim (dyfodol) | **Ystyri di ddim** |
| 11. Manteisio + chi (gorffennol) | **Manteisioch chi** |

**Tasg 2**

Rhowch ffurf gywir y ferf sy mewn cromfachau yn y bwlch.

1. **Daethoch** chi'n hwyr ac roedd y cyngerdd wedi gorffen.
2. **Gwnaiff** hi ymdrech i roi bwyd iach i'r teulu yn y dyfodol.
3. Rwy'n siwr **gwrandawan** nhw arnoch chi fory.
4. **Aiff** hi adref yn gynnar yfory achos bydd ei rhieni yno.
5. **Cawson** nhw wasanaeth plygain yn yr eglwys y llynedd.
6. **Cerddan** nhw i'r gêm achos fyddan nhw ddim eisiau gwario gormod o arian.
7. **Gwnest** ti ormod o gamgymeriadau yn y cyfweliad ddoe.
8. **Chaiff** hi ddim mynd ar y beic modur wythnos nesaf.
9. **Welan** nhw'r prif weinidog pan ddaw e i'r dref?
10. **Ymddiheurodd** y gweinidog ddoe am y sylwadau wnaeth e yn y tŷ.

**Tasg 3**

Cywirwch

1. Prynodd Cen **g**adair esmwyth newydd i'r lolfa.
2. **Thaliff** hi ddim am y gwyliau achos dydy hi ddim yn hael iawn.
3. Gwelais **l**ythyr at fy nhad ar y silff ben tân.
4. Chlywais i **monot** ti'n dod i mewn neithiwr.
5. **Es i i** Abertawe yn ystod y gwyliau.
6. Ddefnyddiais i **mo'r** cerdyn credyd i dalu am y nwyddau.
7. **Dd**arllenaist ti am y llofruddiaeth ddigwyddodd yn ein stryd ni?
8. **G**ysgi di ar y soffa heno?
9. Cawson ni **g**ig moch ac wy i frecwast bob bore.
10. **Dôn** nhw i'r swyddfa erbyn deg o'r gloch y bore.

## ATEBION GWALLAU CYFFREDIN i

**Tasg 1**

Rhowch ffurf gywir 'a' yn y bylchau. Treiglwch a gwnewch newidiadau eraill yn ôl yr angen.

1. Paid **â ch**ael sioc pan weli di fi.
2. Cododd yn hwyr **ac** felly collodd hi'r bws.
3. Rhaid sicrhau bod y dillad mor sych **â ph**osibl.
4. Maen nhw mor alluog **â'u** rhieni.
5. Roedd llawer o lorïau **a ch**eir wedi eu parcio yno.
6. Cymharwch y bardd **ag / ac** awdur y nofel.
7. Mae'n bwysig dysgu derbyn yn ogystal **â** rhoi adeg y Nadolig.
8. **A w**elsoch chi'r ffilm a enillodd y wobr?
9. Bydd e'n dod **ag** anrheg i'w fam bob wythnos.
10. Roedd ei fam **a'i** dad yn y seremoni wobrwyo.

**Tasg 2**

Rhowch 'na', 'nac', 'nag', 'neu' yn y bylchau. Treiglwch, yna gwnewch newidiadau eraill yn ôl yr angen.

1. Dw i ddim eisiau clywed am y parti **na'r** disgo.
2. Wyt ti eisiau prynu dillad **neu** esgidiau newydd?
3. Fydd dim rheswm **nac** esgus ganddo, rwy'n siwr.
4. Roedd ei hesgidiau'n llai **nag** esgidiau plentyn.
5. Does dim arian **nac** eiddo ganddi bellach.
6. Does neb yn hapusach **nag** enillydd y ras fawr.

**Tasg 3**

**Cyfieithwch**

| | |
|---|---|
| 1. *the letter I received* | y llythyr a dderbyniais i |
| 2. *higher than the Eiffel Tower* | yn uwch na Thŵr Eiffel |
| 3. *and then we left* | ac yna / wedyn gadawon ni |
| 4. *the children and their parents* | y plant a'u rhieni |
| 5. *bigger than a giant* | yn fwy na chawr |
| 6. *Are you going out or not?* | Ydych chi'n / Wyt ti'n mynd allan ai peidio? |
| 7. *later than usual* | yn hwyrach nag arfer |
| 8. *and therefore they closed the door* | ac felly caeon nhw'r drws |
| 9. *a table or a chair* | bwrdd neu gadair |
| 10. *sweeter than an orange* | yn felysach nag oren |



**Tasg 4**

Cywirwch y brawddegau hyn.  Mae un gwall ym mhob brawddeg.

1. Dyma'r ferch a **b**rynodd y car rasio coch.
2. Gofynnais iddi **a** fyddai'n fodlon i mi yrru'r car.
3. Dewch **â'r** arian i'r swyddfa erbyn pump o'r gloch.
4. Does dim llysiau **na** ffrwythau ar y stondin heddiw.
5. Cynnwys y traethawd yn unig **a** asesir yn yr arholiad.
6. Mae e'n mynd i Lundain **ac** felly bydd yn rhaid iddo godi'n gynnar.
7. Roedd e'n cadw defaid **a** gwartheg ar y fferm.
8. Peidiwch **ag** yfed a gyrru.
9. Mae siocled ar werth am gyn lleied **ag** ugain ceiniog mewn rhai siopau.
10. Roedd digon o fwyd **ac** arian ganddo pan welais i fe.



## ATEBION GWALLAU CYFFREDIN ii

**Tasg 1**

Rhowch 'pe', 'os' neu 'a' yn y bylchau.  Treiglwch yn ôl yr angen.

1. Byddwn i'n gwybod **pe** bai hi'n bwriadu dod.
2. Codwch **os** ydych chi eisiau bod mewn pryd i ddal y bws.
3. Rhaid i chi ddweud nawr **a** ydych chi am fynd ar y trip fory.
4. Cewch farc da **os** cyflwynwch chi'ch gwaith yn brydlon.
5. Doeddwn i ddim yn gwybod **a** oedd hi wedi talu ai peidio.
6. Fe ddywedaf i wrtho fe **os** gwelaf i fe yn y bore.
7. Wyt ti'n gwybod **a** yw'r post wedi cyrraedd eto?
8. Byddai'n haws **pe** baet ti wedi gwrando arna i.
9. **Os** bydd ffrwythau ffres yn y siop, byddaf yn eu prynu.
10. **Pe** byddwn i'n gwybod dy fod yn sâl, faswn i ddim wedi galw.

**Tasg 2**

Rhowch 'yw' neu 'i'w' yn y bylchau.  Treiglwch yn ôl yr angen.

1. Doedd dim siw na miw **i'w** glywed yn y neuadd.
2. A **yw** eich taid yn byw yn eich ymyl chi?
3. Nhw **yw**'r milwyr gorau sydd yn y fyddin.
4. Nid yw Aled yn debyg **i'w f**rawd o gwbwl.
5. Aethon nhw **i'w ph**abell hi echnos.

**Tasg 3**

Rhowch 'mae' neu 'mai' yn y bylchau.  Treiglwch yn ôl yr angen.

1. Dywedodd wrthyf **mai** yng Nghaerdydd yr oedd yn byw.
2. **Mae** fy mam-gu'n symud i Lundain wythnos nesaf.
3. Rwyf bron yn siwr **mai** Gwil gafodd y swydd.
4. Efo pwy **mae** hi wedi mynd i'r sinema heno?
5. Credaf **mai** hwn yw'r llyfr mwyaf cyffrous.

**Tasg 4**

Cywirwch y brawddegau hyn.  Mae un gwall ym mhob brawddeg.

1. Dywedais wrth y ffermwr bod hwn yn **ll**wybr cyhoeddus.
2. **Pe** byddwn i'n gwybod yr ateb, byddwn i wrth fy modd.
3. Penderfynwyd **b**od gormod o waith i'w wneud ar y tŷ.
4. Gofynnodd y pennaeth **i'w** athrawon fynd i'r gwersi.
5. Rwy'n gwybod **b**od pris y car newydd yn rhy ddrud o lawer.
6. Unwaith bydd yr arholiadau drosodd byddant yn **rh**ydd i fwynhau.
7. Roedd y parc yn arfer bod yn **ll**awn o flodau.
8. Paid ag anghofio gofyn iddo **a** yw e'n mynd i'r sioe.
9. Wyt ti'n gwybod **mai** fi sy'n mynd i gario'r faner yn y gemau?
10. **Mae'n** mynd i'r aduniad fory er bod annwyd trwm arno.



# ATEBION GWALLAU CYFFREDIN iii

**Tasg 1**

Ailysgrifennwch y brawddegau isod gan eu gwneud yn fwy Cymreig.  Mae'r ymadrodd sydd angen ei newid wedi ei danlinellu weithiau.

1. Mae hi'n oer.  **Gwisga dy gôt**.
2. Mae angen i chi **ymchwilio** i'r mater.
3. Roeddwn i'n **canu'r piano** bob dydd pan oeddwn i'n ifancach.
4. Rhaid **diffodd y** teledu bob tro rydyn ni'n gadael yr ystafell.
5. Bydd cyngerdd y dathlu yn **cael ei chynnal / ei gynnal** yn y Ganolfan fory.
6. **Eisteddwch** a byddwch yn dawel os gwelwch yn dda.
7. Mae o wedi dweud nad yw am **barhau** efo'r cwrs.
8. Roedd hi wedi **penderfynu** cyn i fi siarad â hi.
9. Roedd y plant yn y dosbarth **ar eu pen** eu hunain.
10. Roeddwn i'n methu â **deall** y peth.

**Tasg 2**

Cyfieithwch yr ymadroddion, wedyn defnyddiwch nhw mewn brawddegau.

1. y ffenestri i gyd
2. blino'n rhwydd / hawdd
3. rhoi'r gorau i
4. canlyniad y prawf
5. mynd i'r ysgol
6. y graddau i gyd
7. adroddiad yr athro dosbarth /athrawes ddosbarth
8. codi

**Tasg 3**

Cyfieithwch

1. Gorweddwch ar y gwely os gwelwch yn dda.
2. Mae gen i dair chwaer / Mae tair chwaer gen i / Mae tair chwaer gyda fi.
3. Oedd e'n dal i weithio?
4. Dyw / Dydy ei rieni ddim wedi clywed eto.
5. Am beth oedden nhw'n siarad?
6. Mae angen iddyn nhw fynd yn gynnar.
7. Mae ganddi ddau frawd a thair chwaer. / Mae dau frawd a thair chwaer ganddi. / Mae dau frawd a thair chwaer gyda hi.

**Tasg 4**

Cywirwch y brawddegau hyn.  Mae un gwall ym mhob brawddeg.

1. Mae **ganddo f**am sy'n gweithio'n galed iawn.
2. Ar **ddiwedd pob** llythyr rhaid i chi ysgrifennu'ch enw.
3. Dylech chi **fynd** i'r ddarlith erbyn deg o'r gloch.
4. Mae canol y dref wedi **dirywio** achos mae llawer o siopau wedi cau.
5. Roeddwn i'n ffodus iawn i **gael lle** ar y cwrs hwn.
6. Bydd **y** plant **i gyd** yn mynd i nofio ar ôl cinio.
7. Mae o'**n** dal i ddweud nad fo ddaru brynu'r cyffuriau.
8. **Mae'r** heddlu heb ddal y llofrudd.
9. Bydd **hi** eisiau mynd i siopa eto bore fory.
10. **Mae gen i fochdew**, dau gi a dwy gath.



# ATEBION RHAGENWAU

**Tasg 1**

Atebwch y cwestiynau'n llawn.

1. Ydw, rwy'n / rydw i'n adnabod dy frawd di.
2. Oeddwn, roeddwn i'n gwybod bod fy chwaer i yn y dref.
3. Do, gwelais i dy gar newydd di.
4. Do, prynon nhw fy nheledu i.
5. Do, aeth fy ngŵr i i'r gêm ddoe.
6. Mae fy mam i'n dod o ....... yn wreiddiol.
7. Ydw, rwyf i / rydw i wedi gweld dy ferch di heddiw.
8. Oedd, roedd hi'n perthyn i dy fam-gu di.
9. Gwelais i fy nghefnder ....
10. Mae dy fag di ...

**Tasg 2**

Rhowch ragenwau yn lle enwau yn y brawddegau isod. Mae'r frawddeg gyntaf wedi ei gwneud i chi.

1. Roedd Alys wedi gwerthu'r ceir. *Roedd hi wedi eu gwerthu nhw.*
2. Dydy **e / o** ddim wedi **ei** ysgrifennu **e / o**.
3. Mae **e / o** wedi **eu** bwydo **nhw**.
4. Roedd**en nhw** wedi eu gwisgo **nhw**.
5. Bydd**an nhw'n ei** weld **e / o** fory.
6. Fydd**an nhw** ddim yn **ei** brynu **e / o**.

**Tasg 3**

Rhowch ragenwau yn y bylchau.

1. Maen **nhw**'n mynd i Lanelli.
2. Wyt ti wedi ei weld **e / o?**
3. Roedd **hi'**n braf iawn ddoe.
4. Mae hi wedi **fy** nhalu i.
5. Wyt ti wedi gweld y ci **hwn?**
6. Oedd hi'n deall **fy** mod i'n gadael?
7. Ble mae **ei** rieni e'n byw?
8. Rwy'n gobeithio'i bod **hi'**n dda.
9. Chwaraeon nhw yn erbyn **ei** gilydd.
10. Dw i wedi diolch i**'ch** tad chi.

**Tasg 4**

1. Mae **fy mrawd i'n** gweithio yn y banc.
2. Roedd y plant **eraill** wedi gadael yn gynnar.
3. Rwy wedi bod i'ch **ysgol** chi.
4. Wyt ti wedi gweld **ei** fam a'i dad e?
5. Ar ôl bod i'r sinema, aethon nhw i gael pryd o fwyd **gyda'i** gilydd.
6. Clywais i fod y ffilm **honno'n** wych.
7. Mae hi'n meddwl **ei fod** e'n mynd i dalu am y bwyd a'r diod.
8. Ydyn nhw wedi ei **b**rynu e heddiw?
9. Wyt ti wedi cyfarfod â'i **ch**yfnither hi?
10. Dyma'r llyfrau. Wyt ti wedi **eu** darllen?



**ATEBION RHIFOLION A THREFNOLION**

**Tasg 1**

Rhowch eiriau yn lle ffigurau yn y brawddegau isod. Treiglwch lle bo angen.

1. Roedd **tri** llew a **dwy dd**afad yn y llun.
2. Ces i fy ngeni ar **y seithfed ar hugain o** Ionawr, **un naw saith pedwar**.
3. Talon nhw dros **dair mil o bunnau** am wyliau i'r teulu.
4. Arhoson nhw mewn gwesty **pedair** seren.
5. Dangosodd y prawf gwaed ei fod wedi yfed **pedair** uned o alcohol.
6. Costiodd y llyfrau **bedwar deg pum punt a saith deg chwe ch**einiog.
7. Mae'r banc yn agor am **ddeg** o'r gloch ac yn cau am **hanner awr wedi pump**.
8. Enillodd y Gweilch o **dri deg pum** pwynt i **un deg saith**.
9. Cyrhaeddais am **bum munud ar hugain i ddeuddeg**.
10. Cawson nhw ddirwy o **gant wyth deg pum punt** am oryrru ar hyd heol gul.

**Tasg 2**


Cyfieithwch

1. Mae e / o'n un ar hugain heddiw.
2. Prynodd hi'r tŷ yn un naw wyth naw.
3. Dyma'r wythfed llyfr i mi ei ddarllen y tymor hwn.
4. Priodon nhw dair blynedd yn ôl.
5. Talon ni bedwar deg pum punt ac wyth deg ceiniog am y bwyd, ond roedd y diodydd yn rhad ac am ddim.
6. Sgoriodd e / o un deg saith o'r dau ddeg pum pwynt.
7. Rwy'n / Rydw i'n gadael ar Fehefin y degfed ar hugain a bydda i'n dechrau fy swydd newydd ar Orffennaf y pedwerydd ar hugain.
8. Fy hoff bennill yw'r trydydd.
9. Byddwn ni'n dathlu'r Nadolig ar Ragfyr yr ugeinfed eleni achos rwy / rydw i'n gweithio ar y pumed ar hugain.
10. Fi oedd y cyntaf i adael y parti.

**Tasg 3**

Cywirwch

1. Roedd hi'n gadael ar Dachwedd **yr ugeinfed**.
2. Mae hi wedi talu **tair** punt am y blodau.
3. Mae hi'n cael ei phen-blwydd ar Ionawr **y pymthegfed**.
4. Aeth hi i weithio pan oedd hi'n ddeunaw **mlwydd** oed.
5. Gadawodd tair **merch** yr ysgol yn gynnar.
6. Mae hi wedi gorffen y **pedwar** gweithgaredd cyntaf.
7. Roedd dau **ddyn** yn siarad wrth y siop.
8. Bydd chwe **chwaraewr** newydd yn y tîm.
9. Roedd y bws yn gadael am ugain munud wedi **dau**.
10. Pris y gwyliau oedd **tair** mil ewro.





## ATEBION SILLAFU

**Tasg 1**

Rhowch ✓ neu x i ddangos pa rai o'r geiriau isod sy wedi'u sillafu'n gywir.

- prynu ✓
- tyddynnwyr ✗
- byrrach ✓
- aniben ✗
- tarran ✗
- calonnau ✓
- difyrru ✓
- awenau ✓
- barrug ✓
- ysgrifennyddes ✗
- pâr ✓
- tyfi ✗
- emynnau ✗
- pel-droed ✗
- parhâd ✗
- penill ✗
- tristáu ✓
- annheg ✓
- ail-adrodd ✗
- delwu ✗
- celu ✓
- careg ✗
- mwynhad ✓
- pennodau ✗
- ŵylo ✗
- gwenu ✓
- ar wahan ✗
- cyn-gadeirydd ✓

**Tasg 2**

Lluniwch frawddegau i ddangos eich bod yn deall ystyr y geiriau canlynol.
diflas, di-flas, mor, môr, tâl, tal, man, mân, cynnau, gynnau, glan, glân, diflino, blinedig.

**Tasg 3**

Gwnewch restr o eiriau tebyg. Dysgwch eu hystyron a lluniwch frawddegau i ddangos yr ystyr yn glir.

**Tasg 4**

Cywirwch y brawddegau hyn. Mae un gwall ym mhob brawddeg. Trafodwch y camgymeriadau yn eich grŵp a rhowch reswm dros y cywiriadau.

1. Roedd hanner y gynulleidfa'n cysgu achos roedd ei lais mor **undonog**.
2. **Maen** nhw wedi gadael y wlad erbyn hyn.
3. Roedd e'n **chwibanu** ar ei ffordd i'r gêm bêl-droed.
4. Bues i'n brysur iawn ddoe yn **ailddrafftio'r** stori fer.
5. Ydych chi wedi casglu'**ch** tocyn ar gyfer nos yfory?
6. Aethon nhw i'r **ffair** ar sgwâr y dref.
7. Maen nhw wedi **terfynu** ei gytundeb yn gynnar achos doedd e byth yn ei waith.
8. Does dim **diben** gwneud mwy o waith ar y tŷ nes ein bod wedi cysylltu'r trydan.
9. Roedd y bara wedi **caledu** achos gadewais ef yn yr haul.
10. Roedd y **peiriannau** newydd yn gwneud bywyd gymaint yn haws.

**Tasg 5**

Cyfieithwch y brawddegau hyn.

1. Enillon nhw'r ras heb unrhyw anhawster.
2. Fe / Fo oedd y dyn byrraf ar y cae.
3. Roedd hi'n rhegi achos roedd hi wedi methu'r arholiad.
4. Maen nhw wedi rhoi / gosod to newydd ar y tŷ.
5. Rhoddodd / Rhoiodd yr wyrion lawer iawn o bleser iddyn nhw / iddynt hwy.
6. Torrodd hi ddau blât ddoe.
7. Roedd yr asesiad yn annilys achos ysgrifennais i'r atebion mewn inc gwyrdd.



# ATEBION Y FANNOD

**Tasg 1**
Cyfieithwch yr ymadroddion hyn.


- sosban sglodion
- mynd i'r dref
- peswch cas / gwael
- y rhaff
- bag ysgol
- gadael am Yr Eidal
- basged siopa
- gadael yr ysbyty
- y llyfrgell
- bwyd ci
- y wers
- potel win
- dringo'r Wyddfa
- anifail gwyllt
- y bont
- i'r chwith
- mynd i Iwerddon
- rhaglen y cyfrifiadur

**Tasg 2**
Rhowch ffurf gywir y fannod yn y bylchau hyn.

1. Dyma'**r** adeilad newydd sydd wedi agor yn ymyl y brifysgol.
2. Buodd hi'n astudio yn **y** coleg celf.
3. Trowch i'**r** dde wrth **yr** eglwys gadeiriol ac mae'**r** cerflun ar y dde.
4. Roedd dau fwyty ar gopa'**r** mynydd.
5. Pryd gwelaist ti'**r** asgellwr yn chwarae o'**r** blaen?
6. Cwrddon nhw yn **Y** Drenewydd wythnos diwetha.
7. Roedd logo'**r** noddwyr ar **yr** hwyliau.
8. Gwelodd **y** nyrs **y** wythïen ym mraich y claf.
9. Roedd **yr** heol yn llydan iawn wrth **y** theatr.
10. Bu'**r** ganolfan hamdden ar gau am dros flwyddyn.

**Tasg 3**
Cywirwch y brawddegau hyn. Mae un gwall ym mhob brawddeg.

1. Rwy'n hoffi Iwerddon ond mae'n gas gen i'**r** Swistir.
2. O ble mae'r **llong** yn hwylio ar y fordaith?
3. Roedd hi'n byw yng Nghaerdydd ond nawr mae hi'n byw **yn Y Bala**.
4. Gwnaeth y plant eu gwaith cartref yn syth ar ôl cyrraedd adre o'**r** ysgol.
5. Ble mae dillad newydd **y** ferch?
6. Dw i eisiau prynu'r sgert, y trowsus a'**r** esgidiau.
7. Fydd hi ddim yn dod i'n gweld ni dros **y** Nadolig eleni.
8. Clywais ei fod wedi dringo i gopa'**r** Alpau.
9. Mae hi'n sâl iawn achos mae'**r** eryr arni hi.
10. Roedd e'n hapus gartref ac yn **y** gwaith.




**ATEBION Y FERF i**

**Tasg 1**

Trowch y berfau yn y brawddegau isod:

- i'r lluosog
- i'r negyddol

1. Roeddet ti wedi blino'n lân erbyn diwedd yr arolwg.
   **Roeddech chi wedi ....**
   **Doeddet ti ddim wedi ...**
2. Byddwn i wedi talu'n ddrud am y car achos roeddwn i'n hoffi'r lliw.
   **Bydden ni wedi ... roedden ni'n ....**
   **Fyddwn i ddim wedi .... doeddwn i ddim yn ...**
3. Bydd o'n siwr o ennill y gystadleuaeth achos dim ond dau sy'n cystadlu.
   **Byddan nhw'n ...**
   **Fydd o ddim yn ...**
4. Mae hi wedi bod i weld y ffilm newydd ym Mae Caerdydd.
   **Maen nhw wedi bod ...**
   **Dydy hi ddim wedi bod i ...**
5. Byddwn i wedi hoffi cael y cyfle i deithio mewn balŵn.
   **Bydden ni wedi ...**
   **Fyddwn i ddim wedi ...**
6. Byddi di'n dal y trên am ddeg o'r gloch y bore o orsaf y ddinas.
   **Byddwch chi'n dal...**
   **Fyddi di ddim yn dal...**
7. Roeddwn i wrth fy modd gyda'r teledu digidol newydd.
   **Roedden ni wrth ein bodd...**
   **Doeddwn i ddim wrth fy modd ...**
8. Roedd e wedi bod yn gwersylla yn Ffrainc am bythefnos.
   **Roedden nhw wedi bod yn...**
   **Doedd e ddim wedi bod yn...**
9. Byddet ti'n codi am chwech o'r gloch bob bore yn yr haf.
   **Byddech chi'n codi...**
   **Fyddet ti ddim yn codi ...**
10. Rwyf i wedi clywed llawer am achosion arbennig yr heddlu.
    **Rydyn ni / Rydym wedi clywed...**
    **Dw /Dydw / Dwyf i ddim wedi clywed ...**



**Tasg 2**

Rhowch yr atebion cadarnhaol a'r atebion negyddol yn y colofnau priodol isod.

| Cwestiwn | Ateb cadarnhaol | Ateb negyddol |
|---|---|---|
| Oeddet ti? | **Oeddwn, roeddwn i** | **Nac oeddwn, doeddwn i ddim** |
| Fyddech chi wedi bod? | **Byddwn, byddwn i wedi bod Bydden, bydden ni wedi bod** | **Na fyddwn, fyddwn i ddim wedi bod Na fydden, fydden ni ddim wedi bod** |
| Ydw i wedi bod? | **Wyt, rwyt ti wedi bod / Ydych, rydych chi wedi bod** | **Nac wyt, dwyt ti ddim wedi bod / Nac ydych, dydych chi ddim wedi bod** |
| Fyddi di? | **Bydda, bydda i** | **Na fydda, fydda i ddim** |
| Oeddwn i wedi? | **Oeddet, roeddet ti wedi / Oeddech, roeddech chi wedi** | **Nac oeddet, doeddet ti ddim wedi / Nac oeddech, doeddech chi ddim wedi** |
| Fydd hi wedi bod? | **Bydd, bydd hi wedi bod** | **Na fydd, fydd hi ddim wedi bod** |
| Fyddwn i wedi? | **Byddet, byddet ti wedi / Byddech, byddech chi wedi** | **Na fyddet, fyddet ti ddim wedi / Na fyddech, fyddech chi ddim wedi** |
| Ydy o wedi? | **Ydy, mae o wedi** | **Nac ydy, dydy o ddim wedi** |
| Fyddwch chi? | **Bydda, bydda i / Byddwch, byddwch chi** | **Na fydda, fydda i ddim / Na fyddwch, fyddwch chi ddim** |
| Wyt ti wedi bod? | **Ydw, rydw / rwyf i wedi bod** | **Nac ydw, dydw i ddim wedi bod** |

**Tasg 3**

1. **Dydyn** nhw ddim wedi clywed am y bardd enillodd y gadair.
2. Wyt ti'n cael cinio yn yr ysgol wythnos nesaf? **Ydw**.
3. **Doeddet** ti ddim yn gadael yn gynnar ar nos Wener.
4. **Roeddwn** i wedi gweld car yr heddlu'n cyrraedd yr archfarchnad.
5. Byddwn **ni**'n mynd i weld y sioe yn Llundain yr wythnos nesaf.
6. Ydy **hi** wedi clywed am y pennaeth newydd?
7. **Wyt t**i wedi gorffen llenwi'r ffurflen gais am y swydd newydd?
8. **Byddan** nhw'n darllen y stori cyn mynd adref heddiw.
9. **F**ydden nhw ddim wedi cyrraedd mewn pryd beth bynnag.
10. Rydyn ni wedi **b**od i gael bwyd yn y gwesty moethus.



**ATEBION Y FERF ii**

**Tasg 1**

Cyfieithwch

1. Penderfynwyd yr wythnos diwethaf.
2. Agorwch y drws yn dawel.
3. Gwrandewch ar eich athrawon.
4. Newidiwyd ef ddoe.
5. Gwelwyd ef yn gadael.
6. Talwch am y tocynnau os gwelwch yn dda.
7. Peidiwch â / Paid â thalu â cherdyn.
8. Cesglir ef yn y bore.
9. Cedwir ef yn y garej.
10. Paid â / Peidiwch ag ateb nôl.

**Tasg 2**


Rhowch y ferf a'r ymadrodd sy'n dilyn gyda'i gilydd yn yr ail golofn. Treiglwch os oes angen. Wedyn ysgrifennwch frawddeg i gynnwys yr ymadrodd yn y golofn olaf.

| | |
|---|---|
| 1. Dylwn i + mynd | Dylwn i fynd. |
| 2. Peidiwch â + tynnu llun | **Peidiwch â thynnu llun** |
| 3. Cynhelir + disgo | **Cynhelir disgo** |
| 4. Ddylen ni ddim + gweiddi | **Ddylen ni ddim gweiddi** |
| 5. Holwyd + llawer | **Holwyd llawer** |
| 6. Hoffen nhw ddim + gwisgo | **Hoffen nhw ddim gwisgo** |
| 7. Gwisgwch + côt | **Gwisgwch gôt** |
| 8. Codwyd + tai newydd | **Codwyd tai newydd** |
| 9. Hoffen nhw + dathlu? | **Hoffen nhw ddathlu?** |
| 10. Allet ti + canu? | **Allet ti ganu?** |
| 11. Penodir + pennaeth | **Penodir pennaeth** |

**Tasg 4**

Cywirwch

1. Ysgrifennwyd **ll**ythyr at y pennaeth.
2. Ni **chafwyd** tystion i'r ddamwain yr wythnos diwethaf.
3. Dylwn **dd**efnyddio'r rhaglen newydd ar y cyfrifiadur.
4. Cynigir **dau** docyn am ddim i enillydd y gystadleuaeth.
5. Gallech chi **wneud** ymdrech i wrando.
6. Dylen nhw **d**rafod dylanwad y rhyfel ar waith y bardd.
7. **Dywed** y tiwtor bod fy ngwaith wedi gwella llawer yn ddiweddar.
8. Hoffet ti **dd**awnsio yn y gig?
9. Anghofiwyd **d**weud wrtho am y seminar bore ddoe.
10. Hoffai hi ddim **m**ynd ar wyliau i Landudno.





## ATEBION Y TREIGLAD MEDDAL

**Tasg 1**

Rhowch 'dy' o flaen yr enwau isod.

- **dy ardd**
- **dy bensil**
- **dy gadair**
- **dy deimladau**
- **dy gwningen**
- **dy ben-blwydd**
- **dy gyfeiriad**
- **dy brofiad**
- **dy wyliau**
- **dy wraig**
- **dy ddarlith**
- **dy deledu**

1. Roedd hi'n edrych ...................... wael iawn neithiwr. (*Ateb – yn – T.M. ansoddair yn dilyn yn traethiadol*)
2. Rhedodd i mewn **i'w** dŷ fel mellten. **T.M. ar ôl y rhag. gwr. 'w**
3. Es i i'r gwely **pan** orffennodd y ffilm. **T.M. mewn berf ar ôl pan**
4. Ble mae **dy** gartref newydd di? **T.M. ar ôl y rhag. dy**
5. Gwerthais fy nghar **am** bris uchel iawn. **T.M. ar ôl yr ardd. ar**
6. Mae'**r** ddarlith gyntaf am naw o'r gloch. **T.M. mewn enw ben. un. ar ôl y fannod**
7. Dafydd yw **ei** frawd e? **T.M. ar ôl y rhag. gwr. ei**
8. Roedd hi'**n** benderfynol o ennill y ras. **T.M. mewn ans. yn dilyn yn (traethiadol)**
9. Dyma'r dyn **a** welais yn rhedeg i ffwrdd neithiwr. **T.M. mewn berf yn dilyn a (rhagenw perthynol)**
10. **Pa** ddarlun brynaist ti efo'r arian? **T.M. mewn enw'n dilyn 'Pa?'**
11. Mae **gen i** ddau gi a dwy gath. **T.M. ar ôl yr ardd. gan**


**Tasg 3**


**Cyfieithwch**

1. **Bwytewch yn dawel.**
2. **Roedd ei dad yn hen.**
3. **Mae'n well gen i gerdded.**
4. **Foneddigion a boneddigesau.**
5. **Clywon ni / Clywson ni ganu.**
6. **Bydd ei ginio'n oer.**
7. **Tŷ ei frawd e / o.**
8. **Collaist ti / Colloch chi gyngerdd da / dda.**
9. **Bore da, blant.**
10. **Hoffwn i ddau bwys o siwgr os gwelwch yn dda.**

**Tasg 4**

1. Ches i ddim gwahoddiad i'w **b**arti o.
2. Bydda i'n mynd i'r **dd**rama ar fy mhen fy hun.
3. Bues i'n **g**weithio yn Abertawe am bum mlynedd.
4. Talodd hi **d**deugain punt am betrol ddoe.
5. Bydd hi'n treialu'r **c**westiynau wythnos nesaf.
6. Ches i ddim gair ganddo am dros **f**lwyddyn.
7. Mae gen i **dd**olur gwddw ers pythefnos.
8. Mae gan y plant **l**awer o deganau.
9. Prynais i **f**lodau i nghariad i.
10. Collodd o'i **b**res i gyd ar y ceffylau.





## ATEBION Y TREIGLAD TRWYNOL A'R TREIGLAD LLAES

**Tasg 1**

Rhowch 'fy', 'a' *(and)* ac 'ei' *(her)* o flaen yr enwau isod.

| | | | |
|---|---|---|---|
| ❖ **fy ngardd**<br>❖ **a gardd**<br>❖ **ei gardd** | ❖ **fy nheimladau**<br>❖ **a theimladau**<br>❖ **ei theimladau** | ❖ **fy nghyfeiriad**<br>❖ **a chyfeiriad**<br>❖ **ei chyfeiriad** | ❖ **fy ngwallt**<br>❖ **a gwallt**<br>❖ **ei gwallt** |
| ❖ **fy mhensil**<br>❖ **a phensil**<br>❖ **ei phensil** | ❖ **fy nghwningen**<br>❖ **a chwningen**<br>❖ **ei chwningen** | ❖ **fy mhrofiad**<br>❖ **a phrofiad**<br>❖ **ei phrofiad** | ❖ **fy narlith**<br>❖ **a darlith**<br>❖ **ei darlith** |
| ❖ **fy nghadair**<br>❖ **a chadair**<br>❖ **ei chadair** | ❖ **fy mhen-blwydd**<br>❖ **a phen-blwydd**<br>❖ **ei phen-blwydd** | ❖ **fy ngwyliau**<br>❖ **a gwyliau**<br>❖ **ei gwyliau** | ❖ **fy nheledu**<br>❖ **a theledu**<br>❖ **ei theledu** |

**Tasg 2**


Rhowch ffurf gywir y geiriau mewn cromfachau yn y bylchau. Gwnewch unrhyw newidiadau eraill sy'n angenrheidiol, e.e. yn > yng.

1. Roedd ganddi sgarff hardd am ei **phen**.
2. Dywedodd na **thalai** iddi fynd i'r ffair.
3. Mae'r eisteddfod yng **Nghaernarfon** y flwyddyn nesaf.
4. Awn tua **thref**.
5. Pum **niwrnod** yn ôl roeddwn i yn Ffrainc.
6. Maen nhw bob amser yn cweryla fel ci a **chath**.
7. Yn gochach na **thomato**.
8. Ble mae fy **ngwydr** i?
9. **Chewch** chi ddim bwyta yn y dosbarth.
10. Fory, mae Sarah yn wyth **mlwydd** oed.
11. Ysgrifennodd y ferch lythyr â / gyda **phensil**.
12. Wrth syrthio ces i dwll yn fy **nhrowsus**.
13. Chwythodd ei **thrwyn**.
14. Mae siopau da **yng Nghaerdydd**.
15. Roedd tri **cheffyl** yn y cae.
16. Rwyf wedi penderfynu torri fy **ngwallt**.
17. Ciciodd y ceffyl fi yn fy **nghefn**.
18. Roedd rhaid i'r carcharorion fyw ar fara a **chaws**.
19. Cyrhaeddodd chwe **pharsel** y bore ma.
20. Cyfarthodd fy **nghi** yn ddi-baid drwy gydol y nos neithiwr.

**Tasg 3**

Cywirwch

1. **Ch**es i ddim gwahoddiad i'r parti.
2. Rwy'n mynd i'r ddrama ar fy **mh**en fy hun.
3. Bues i'n gweithio **yng Ngh**aeredin am bum mlynedd.
4. Bydd hi'n treialu'r gwaith gyda **th**ri deg o bobl.
5. **Ch**lywais i ddim byd oddi wrtho fe am dros flwyddyn.
6. Mae gen i gur yn fy **mh**en.
7. Peidiwch â **th**roi i'r chwith cyn y goleuadau.
8. Dyma'r dyn na **ph**rynodd flodau i'w wraig.
9. Yn fy **mh**rofiad i, mae paratoi gwersi'n ofalus yn bwysig iawn.
10. Collais fy **mh**res i gyd ar y ceffylau.



## ATEBION YR WYDDOR GYMRAEG A DEFNYDDIO GEIRIADUR

### Tasg 1

Defnyddiwch yr wyddor Gymraeg i osod y geiriau hyn yn y drefn gywir.

- angladd
- allan
- anelu
- cangen
- caled
- callio
- digwyddiad
- economaidd
- echel
- fandal
- ffrog
- onglau
- oll
- rasio
- rhybudd
- ynganu

Nawr, paratowch dasgau newydd, ar wahanol lefelau i ymarfer sgiliau geiriadur. Mae rhai enghreifftiau i'w gweld ar wefan Gwasg Gomer.

### Tasg 2

Rhowch 'y' neu 'yr' o flaen yr enwau isod a 'hwn', 'hon' neu 'hyn' ar eu holau.

| | | |
|---|---|---|
| y | ddynes | hon |
| **y** | bobl | **hyn** |
| **y** | cwpanau | **hyn** |
| **yr** | wyres | **hon** |
| **y** | tywydd | **hwn** |
| **y** | dosbarth | **hwn** |

| | | |
|---|---|---|
| **yr** | hydref | **hwn** |
| **y** | moron | **hyn** |
| **yr** | afalau | **hyn** |
| **y** | munudau | **hyn** |
| **yr** | esgus | **hwn** |
| **y** | meddygon | **hyn** |

### Tasg 3

Rhowch y byrfoddau cywir ar ôl y geiriau hyn. Wedyn, ysgrifennwch frawddegau i gynnwys y geiriau.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| dros | **ardd.** | talu | **be.** | dy | **rhag.** | uchel | **a.** |
| ac | **cys.** | tawel | **a.** | angladd | **egb.** | mewn | **ardd.** |
| nhw | **rhag.** | troellog | **a.** | desg | **eb.** | ond | **cys.** |
| hapus | **a.** | clywais | **be.** | prynodd | **be.** | heb | **ardd.** |
| melyn | **a.** | amdanaf | **ardd.** | swnllyd | **a.** | anifeiliaid | **ell.** |

### Tasg 4

Cywirwch y brawddegau hyn. Mae un gwall ym mhob brawddeg.

1. Cyrhaeddodd y neuadd **ac** mewn dwy funud dechreuodd y cyngerdd.
2. Mae hi'n cerdded i'r ysgol yn y bore **ac** fel arfer mae hi'n cerdded adre hefyd.
3. Roedd yr athrawon **a'r** plant wedi gweithio'n galed iawn.
4. Mae diweithdra'n ofnadwy yn yr ardal **ac** mae llawer gormod o bobl yn crwydro'r strydoedd.
5. Roedd **yr** hadau bach yn dechrau egino.

6. Doedd y ferch ddim wedi gweld y ffilm h**o**n.
7. Roedd hi wedi blino'n lân a**c** felly aeth hi adre'n gynnar.
8. Mae pawb yn teimlo'n well os yw**'r** haul yn disgleirio.
9. Prynodd hi'r erfin h**y**n yn yr archfarchnad.
10. Roedd y llyfr h**w**n yn ddiddorol iawn.
11. Mae hi wedi gwerthu'r car a**c** wedi prynu beic newydd sbon.
12. Dw i eisiau i'r rhai sy'n mynd i'r Eidal a**c** sy'n siarad Eidaleg wrando'n ofalus.